Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

Cyfrol xl. AWST, 1940 Rhif 8.

Pregeth.

(Traddodwyd yng Nghyfarfod Blynyddol y Gymdeithas ym Mwlchyfadfa gan y Parch. Lewis Williams.)

" A phasc yr Iddewon oedd yn agos : a'r Iesu a aeth i fyny i Ierwsalem. Ac a gafodd yn y deml rai yn gwerthu ychen, a defaid, a cholomennod, a'r newidwyr arian yn eistedd. Ac wedi gwneuthur fflangell o fan reffynnau, efe a'u gyrrodd hwynt oll allan o'r deml, y defaid hefyd a'r ychen, ac a dywalltodd allan arian y newidwyr, ac a ddymchwelodd y byrddau, ac a ddywedodd wrth y rhai a oedd yn gwerthu colomennod, ' Dygwch y rhai hyn oddiyma ; na wnewch dŷ fy Nhad yn dŷ marchnad '."—*Ioan ii. 13-16.*

Sylwn yn bennaf ar ran o'r adnod olaf, " na wnewch dŷ fy Nhad yn dŷ marchnad ". Amlwg fod Iesu'n hoffi sôn am dŷ ei Dad. Nid yn yr un ystyr y bydd yn ei ddefnyddio bob amser. Ystyr yr ymadrodd ganddo weithiau ydyw'r byd ysbrydol ; ei ystyr bryd arall ydyw'r deml yn Ierwsalem.

Yr oedd Iesu'n hoff iawn o'r term hwn—tŷ ei Dad—am fod i'w Dad yn y Nef le mawr yn ei feddwl a'i serch. Y pethau y mae pobl yn hoffi sôn amdanynt ydyw'r pethau y mae iddynt le mawr yn eu meddwl a'u serch. Nid oes eisiau i bobl ddweud pa bethau y maent yn hoff ohonynt. Ceir eu clywed yn sôn am y pethau hynny'n fynych. Os yw Duw yn cael lle mawr yn ein meddwl yr ydym yn sicr o sôn amdano'n aml. Ac y mae'r gwrthwyneb yn wirionedd. Onid ydym byth yn sôn am Dduw nac am dŷ Dduw, nid oes ynom gariad at Dduw na hoffder at ei dŷ. Yr oedd Iesu'n hoff o'r term—tŷ ei Dad.

Caraf innau sôn am " dŷ ein Tad " a rhoi'r ystyr eangaf iddo. Yr wyf am ei wneud yn eangach na'r byd ysbrydol, na chapel ac eglwys. Yr wyf am ei wneud mor eang â'r cyfanfyd.

Y BYD I GYD YN DEML I DDUW.

Un o anghenion Cristnogaeth ydyw cael dynion i feddwl am y byd i gyd fel tŷ eu Tad. Pe gellid gwneud hynny gwnai wahaniaeth mawr. Byddai dynion wedyn yn ymwybodol o bresenoldeb Duw ymhob man. Byddent yn cyfarfod â Duw ymhob man. Daw twyll ac anonestrwydd i'r golwg yng ngweithredoedd pobl. Anodd credu y gallent gyflawni'r pethau hyn pe byddent yn ymwybodol eu bod yn eu cyflawni yng ngolau wyneb Duw. Gwnai ddaioni mawr pe gellid cael dynion i feddwl am y byd i gyd fel tŷ eu Tad.

UNDOD PETHAU:

Yr ydym yn gyfarwydd â'r syniad o undod,—undod Duw ac undod dyn. Y mae Duw yn ei holl agweddau ymhob gweithred o'i eiddo. Os yw'n gariad mewn gweithred y mae'n gymaint o uniondeb ynddi hefyd. Yr un fath am ddyn. Os mai hunangais yw egwyddor ei galon, ni all ewyllysio daioni i neb, nac aberthu er mwyn neb. Y mae ei ewyllys yr un ag yw ei egwyddor. Y mae dyn yn un drwyddo, yn un yn ei feddwl, a'i amcan, a'i ewyllys, a'i gydwybod, a'i egwyddor. Y mae'n un yn ei bersonoliaeth. Os medr gyflawni gweithred wael nid yw'r weithred wael honno'n sefyll ar ei phen ei hun yn ei fywyd. Y mae cymeriad y dyn yn y weithred honno, ei feddwl, a'i ysbryd, a'i egwyddor. Pe byddai ei egwyddor yn well na'i weithred ni wnai ei egwyddor ganiatau iddo ei chyflawni. Y mae bywyd dyn yn un drwyddo.

Y mae'r un peth yn wirionedd am y byd i gyd. Bu dynion yn rhannu'r byd, yn galw un rhan yn fyd naturiol a'r llall yn fyd ysbrydol, ac yn gwahaniaethu'r naill oddiwrth y llall. Gwyddom heddiw mai un byd sydd ond y mae iddo wahanol arweddau. Trwy'r byd a thrwy fywyd i gyd y mae undod, ac amcan Cristnogaeth yw cael y byd i gyd yn fyd i Dduw—yn DEML Y DUW BYW.

Dyna fyd hyfryd wedyn. Ni byddai rhyfel nac anghyfiawnder nac anfoesoldeb na drygioni o un math ynddo, oblegid pethau gwrthwynebol i Dduw ydyw'r rhai hynny.

Gwelodd Ioan fod pob man i fod yn deml i Dduw. Nid oedd y bobl y sonnir amdanynt yn y testun wedi gweled hynny. Dywed adnod 14 eu bod yn gwerthu ychen a defaid a cholomennod yn y Deml. Nid yw hynny'n hollol gywir. Yng nghyntedd y cenhedloedd yr oeddynt yn dwyn y fasnach hon ymlaen. Dechreuwyd y drafnidiaeth am fod hynny'n angenrheidiol er cyfleustra'r addolwyr, fel y gallent brynu anifeiliaid ar gyfer eu haberthau, a newid yr arian a ofynnid gan y Gyfraith am yr arian tramor a feddai'r addolwyr o wledydd dieithr. Gyrrodd Iesu'r masnachwyr hyn i ffwrdd. Paham? Am fod ysbryd y dynion hyn a farnai bethau

wrth eu gwerth bydol yn dod i mewn i'r Deml. Y mae yna bethau a mwy o werth yn perthyn iddynt na gwerth bydol. Y mae yna werthoedd ysbrydol. Ac y mae'r byd gymaint o'i le am na ddysgodd brisio pethau yn ôl eu gwir werth.

Enwn rai o'r pethau y mae'n rhaid eu gwneud er mwyn dod â'r byd i'w le.

I. GORSEDDU Y GWERTHOEDD UCHAF.

II. YMARFER YR EGWYDDORION MWYAF.

III. CREU AWYRGYLCH BURACH.

GORSEDDU Y GWERTHOEDD UCHAF.

Bai mawr y byd yw nad yw ei werthoedd yn iawn. Pethau o werth materol ac aniannol y mae'r byd yn brisio fwyaf, gyda'r canlyniad fod y pethau pwysicaf yn cael eu dibrisio. Hawdd deall sut ydym yn prisio pethau—y mae'r ffordd ydym yn talu pobl yn datguddio hynny. Gwelais yn ddiweddar fod un *comedian* y mae ei enw yn hysbys yn y wlad yma yn cael tri chan punt yr wythnos am actio ar y *stage*. Gwyddom nad yw *comedian* yn cyfrannu dim at les a dyrchafiad y ddynoliaeth, ond dengys ei gyflog fod y bobl yn gwerthfawrogi'n fawr ei gyflawniadau, ac yn foddlon talu pris uchel am y mwynhâd a gant drwyddynt.

Ar bethau tebyg y gesyd pobl werth. Y mae cymdeithas heddiw, ac hyd yn oed Eglwys Dduw, yn dyrchafu dynion di-gymeriad am eu bod yn derbyn elw bydol drwyddynt. Tra gwnawn bethau felly ar gosod gwerth ar bethau gwagsaw, ni ellir disgwyl am ddyddiau gwell.

YMARFER YR EGWYDDORION MWYAF. Beth yw rhai o'r egwyddorion mwyaf? Hunanymwadiad ac hunanaberth. Enwn y rhai hyn am fod cymaint o hunangais yn bod. Nid oes lawer o sôn am egwyddor ac urddas heddiw. Ni osodir cymaint a ddylid o werth arnynt. *Llwyddiant* yw gair mawr y dyddiau hyn. Ac fe gredir fod y fath ogoniant yn perthyn iddo fel y mae'n cuddio pob ystryw a ddefnyddir i'w gyrraedd. Y mae eisiau dod yn ôl i sôn am anrhydedd ac urddas, oblegid beth yw bywyd hebddynt?

Pan na osodir gwerth ar fywyd anrhydeddus ac urddasol, ni all pobl fentro dros yr egwyddorion sy'n cynhyrchu bywyd felly. Clywsom am Blondin yn cerdded ar râff dros y Niagara Falls. Gofynnai i'r dorf a ddaeth i'w weld yn gwneud ei gampau, "Do you believe that I can walk on the rope over the Falls?" "Yes," meddai'r dorf mewn un llais. Wedi gwneud hynny gofyn am whilber. Ar ôl ei chael gofyn i'r dyrfa, "Do you believe that I

'can drive this wheelbarrow on the rope over the Falls ? " " Yes," meddai'r bobl eto gydag un llais. Wedi gwneud hynny daw yn ei ôl â'r whilber gydag ef, a gofyn wedyn, " Do you believe that I can drive a man in the wheelbarrow over the Falls ? " " Yes," meddai'r dorf mewn un llais. " Who will jump in then?" meddai Blondin. Nid oedd neb yn gwneud. Nid oedd neb yn foddlon mentro, er iddynt ddweud eu bod yn credu yng ngallu Blondin i yrru dyn yn y whilber ar hyd y rhâff dros raiadr ofnadwy y Niagara. Peth tebyg i hynyna yw llawer o'n credu ninnau. Nid ydym yn foddlon mentro ar yr egwyddorion a broffeswn. Credwn mai diogelwch i ni fydd gofalu am ein lles bydol, a cheisiwn gyrraedd hwnnw. Gwrthodwn arfer yr egwyddorion a broffeswn gredu ynddynt. Gwell gennym fod yn gyfoethog o bethau'r byd hwn na bod yn gywir ein hegwyddorion ac yn uniawn ein gweithredoedd. Druain a ni ! " Y nos hon y gofynnant dy enaid oddiwrthyt, ac eiddo pwy fydd y pethau a baratoaist ? "

CREU AWYRGYLCH BURACH. Dyma beth y mae'n rhaid ei wneud er dwyn y byd i'w le. Y mae'r awyr sydd o'n cwmpas yn beth pwysig iawn i'n bywyd naturiol. Rhaid i ni gael awyr i'w hanadlu cyn y gallwn fyw.

Y mae'r awyrgylch yr un mor bwysig mewn byd uwch. Ofnwn ein bod wedi mynd yn fwy diofal ym mherthynas awyrgylch ein bywyd crefyddol. Daeth pethau newydd i mewn i'n cartrefi sy'n gwneud niwaid enfawr. Creant awyrgylch sy'n niweidiol i feddyliau pur, i deimladau llednais, i ysbryd crefyddol, ac i ymdeimlad o'r Presenoldeb Dwyfol. Pan gollir y syniad am gysegredigrwydd bywyd nid oes ddim i rwystro'r chwantau mwyaf aflan a'r serchiadau mwyaf llygredig i feddiannu calon dyn.

Onid yw'r Sul wedi newid yn fawr ? Gwyddom beth ddywed rhai am " yr hen bobol "— eu bod yn goelgrefyddol ac yn orddduwiol. Beth bynnag ddywedir amdanynt, a beth bynnag oedd eu colliadau, y mae'n sicr eu bod yn creu awyrgylch a oedd yn fanteisiol i gynnal y syniad am Dduw ac am gysegredigrwydd bywyd. Heb y ddau beth yna ofer meddwl am fywyd sanctaidd ac ymarweddiad uniawn.

Dweud ydwyf fod awyrgylch yn bwysig. Cofus gennyf am yr hen amser pryd y byddai pobl yn treulio'r nos Sul i ganu emynau'n eu tai. Da fyddai cael awyrgylch y dyddiau hynny'n ôl i'n cartrefi. Byddai'n gynorthwyol i ddwyn Duw yn ôl i feddwl pobl, a chreu mewn pobl " ofn yr Arglwydd ". " Swm y cwbl a glybuwyd yw, ofna Dduw, a chadw ei orchymynion, canys hyn yw holl ddyled dyn." Amen.

Hen Dy Cwrdd Cefncoed.

Gan Mrs. J. R. Evans.

Obryd i bryd darllenir am Americanwyr yn dod i'r wlad hon i brynu "hen bethau". Prynant hyd yn oed dai y mae iddynt hanes er mwyn eu hail-adeiladu garreg wrth garreg yn eu gwlad eu hunain. Gwnant hynny er mwyn rhoi cysylltiadau cysegredig Hanes i'w gwlad, canys y mae traddodiadau hen yn gyfoeth cenedlaethol ac yn rhoi ar wlad urddas i ymfalchio ynddo.

Y mae ysbrydoliaeth mewn traddodiad, ac nid yw hanes Hen Dŷ Cwrdd Cefn Coed y Cymer yn amddifad o hynny. Y mae hynny'n eglur pan fwrir golwg ar dyfiant yr achos Undodaidd yma, a gwelir fod stori'r Hen Dŷ Cwrdd yn gysylltiedig â hanes dechrau Anghydffurfiaeth yng Nghymru.

Saif yr addoldy rhyw ergyd carreg i'r chwith o'r ffordd fawr o Ferthyr i Aberhonddu. Yn ei gysgodi y mae'r "hen ywen" sy'n tyfu'n y fynwent lawn, drwsiadus sy'n amgylchu'r capel. Yn ymyl y capel safai'r ysgoldy hen-ffasiwn, yr "Academy on Steps" fel yr hoffai'r ysgolheigion gynt ei galw. Erbyn hyn y mae wedi diflannu, ac yn ei lle y mae adeilad eang a hardd, coron ar ymdrechion diweddar y gynulleidfa weithgar yma. Addysgwyd yn yr hen ysgol nifer mawr o weinidogion o bob enwad ynghŷd â llaweroedd ar gyfer galwedigaethau ereill, ac esgynnodd rhai ohonynt i safleoedd uchel ac anrhydeddus. Dyma'r cyfnod yr oedd gweinidogion Undodaidd yn ysgolfeistri o raid yn ogystal â dewis, a gwnaethant ddiwrnod da o waith mewn amser pan oedd cyfleusterau addysg uwchraddol yn brin. O dan yr hen ysgoldy yr oedd yr ystabl, adeilad angenrheidiol yn y dyddiau pan ddeuai addolwyr o fannau mor bell â Bedwellty a Hengoed a lleoedd ereill ar gefn eu ceffylau i'r gwasanaeth ar fore Sul.

Codwyd y Capel yn 1747, a'r adeg honno yr oedd diwygiad crefyddol yn ysgubo'r wlad. Dyma'r dyddiau cyn codi ffwrneisi Anthony Bacon ac agor pyllau glo Cyfarthfa. Dywedir i'r capel gael ei adeiladu mewn llannerch yn y coed, a thorrwyd y coed wedi hynny i'w llosgi'n y ffwrneisi hyn. Y pryd hwnnw nid oedd Merthyr ond pentref bychan.

Cwm y Glo:

Tyfodd Hen Dŷ Cwrdd Cefn Coed o'r un gwreiddyn â Hen Dŷ Cwrdd Trecynon. Disgynyddion ydynt o achos Cwmyglo. Codwyd capel Cwmyglo yn 1690, ac nid oes yn aros yn awr o'r hen adeilad ond un talcen yn unig. Dywedir i'r gynulleidfa cyn codi'r Capel hwn addoli dan orfod yn ddirgel yn ffermdy Cwmyglo. Amseroedd gwael ydoedd y rheini yn hanes Anghydffurfiaeth, y

'dioddefaint yn fawr a'r erlid yn drwm. Ar waethaf gorthrwm cyfraith a baich dirwyon, ie, carchar ac angau ymgryfhaodd y ffyddloniaid yn eu Hanghydffurfiaeth ac yng nghadernid eu ffydd. Fe gynhyddodd yr achos yng Nghwmyglo mewn nerth ac mewn nifer. Er hynny nid Cwmyglo ydoedd cartref cyntaf y gynulleidfa. Dywedir mai ei man cyfarfod oedd Blaencannaid, ffermdy cyfagos. Cynhelid gwasanaethau crefyddol yno mor gynnar â 1620. Ail-adeiladwyd tŷ fferm Blaencannaid yn 1841 ar yr hen seiliau, ac y mae yno seler cuddiedig a'r ffordd yn arwain iddo o'r ardd wrth gefn y tŷ. Crud Cristnogaeth yng Nghymru ydyw Llandâf, a chredaf y gellwn edrych ar Flaencannaid fel crud Anghydffurfiaeth yng Nghymru.

DADL RHWNG CALFIN AC ARMIN:

Yn union wedi Deddf Goddefiad (1689) codwyd capel Gwmyglo, ac fel cynulleidfaoedd yr Anghydffurfwyr cynnar i gyd yr oedd llawer o wahanol farnau ymhlith yr aelodau, ond cytunent ar un pwynt—gwrthwynebu hawliau'r Eglwys Wladol. Wedi iddynt gael y rhyddid i addoli daeth y gwahanol farnau ar faterion diwinyddol i gymryd lle pwysicach yn eu golwg, a gwelwyd yng Nghwmyglo ddadlau brwd rhwng y Calfiniaid a'r Arminiaid. Am beth amser cyn 1747 yr oedd gan y ddwy blaid bob un ei gweinidog. Y Parch. James Davies ydoedd arweinydd y Calfiniaid, a phregethwr y blaid Armin ydoedd y Parch. Richard Rees. Er mwyn tangnefedd penderfynodd dilynwyr Richard Rees ymadael a gwneud cartref newydd ar Gefn Coed. Gwnaethpwyd hynny yn 1747.

Yn aelod yng Nghwmyglo, ac yn edmygydd mawr o Richard Rees, yr oedd Sion Llywelyn, y bardd o'r Faenor. Cyhoeddwyd cyfrol fechan o'i weithiau, ac mewn penillion cwynai'n drwm fod cwerylon ynghylch syniadau yn rhannu cynulleidfa Cwmyglo. Aeth ef allan gyda'r blaid Armin i'r cartref newydd, ac ef ydoedd diacon cyntaf y gynulleidfa yng Nghefn Coed. Gorffwys ei weddillion ym mynwent y capel, ac y mae ei ddisgynyddion yn parhau hyd heddiw'n bileri cryfion i'r achos. Gyda llaw, ymddengys mai Sion Llywelyn ydyw'r unig un o feirdd y Faenor sy wedi gadael barddoniaeth o natur grefyddol ar ei ôl.

RICHARD REES:

Hanai Richard Rees (1709-1749) o Gwernllwyn Dowlais, ac addysgwyd ef yng Ngholeg Caerfyrddin. Ordeiniwyd ef yn gydweinidog â James Davies yng Nghwmyglo yn 1732. Ymhen dwy flynedd wedi ffurfio'r gynulleidfa newydd yng Nghefn Coed bu farw yn 40 mlwydd oed. Dywed yr hanesydd, Dr. Rees, amdano ei fod yn ddyn cyfoethog a dysgedig, yn enwog am ei addfwynder a'i ostyngeiddrwydd a'i dduwioldeb.

PHILIP CHARLES:

Dilynwyd ef yn y weinidogaeth gan y Parch. Philip Charles (1721-1790), nai Phylip Dafydd Penmaen, ac fel ei ewythr, yn ôl pob tebyg, yn hanu o'r lle hwnnw. Yr oedd tipyn o wahaniaeth rhwng syniadau ewythr a nai. Hoffter Phylip Dafydd ydoedd hela hereticiaid, a siaradai'n amharchus iawn am ei nai fel Armin, ac wedi hynny, fel Ariad. Er hynny dywed Phylip Dafydd iddo bregethu " yng Nghoed y Cymer " ar Fedi 17, 1769. Bu'n bugeilio'r gynulleidfa am 41 o flynyddoedd. Claddwyd ef ym mynewnt Eglwys y plwy, Merthyr, ac ar ei garreg fedd ceir y llinellau canlynol :—

The bodies laid within this grave
A commendation they should have
For showing mercy to the poor
With cheerful hearts and open door.

Cyhoeddwyd tair o bregethau Phylip Charles yn 1754.

THOMAS DAVIES:

Yn dilyn ar restr y gweinidogion y mae enw y Parch. Thomas Davies (1759-1832), brodor o Geredigion. Paratowyd ef ar gyfer y Coleg yn ysgol Dafis Castell Hywel. Ordeiniwyd ef o Goleg Caerfyrddin i'r weinidogaeth yng Nghefn Coed, lle y bu hyd derfyn ei oes. Disgrifir ef fel pregethwr meddylgar, ac ar gof-lech ar fur y capel darllenir : " he was 42 years minister and died at the age of 73 ". Yr oedd un o'i feibion yn feddyg i'r Llynvi Iron Works tua 1830.

DANIEL DAVIES:

Wedi marw Thomas Davies bu'r gynulleidfa yng ngofal ffrind mawr iddo, y Parch. Daniel Davies, mab i un o weinidogion Abermeurig a Chilgwyn, Ceredigion a fu farw cyn gweled ohono godi ei blant. Addysgwyd Daniel Davies yng Ngholeg Caerfyrddin (1779-1783) a derbyniodd alwad oddiwrth gynulleidfa Capel Ynysgau, Merthyr Tydfil, cangen arall o hen achos Cwmyglo. Ordeiniwyd ef yno ar Fai 6, 1786. Ymbriododd â merch Gwernllwyn Isaf, ac wedi iddo fynd o Ynysgau aeth i fyw i'r Cwm, yn ymyl Caerffili. Ar farwolaeth ei hen ffrind a'i gyd-fyfyriwr, Thomas Davies, yn 1832 ymgymerodd Daniel Davies â'r fugeiliaeth hyd onid apwyntiwyd gweinidog newydd. Bu'n gweinidogaethu am bum mlynedd, ac yn 1837 estynnwyd galwad i'r Parch. Owen Evans. Ymneilltuodd Daniel Davies i fyw ym Mhontypridd, a bu farw wedi iddo gyrraedd yr oedran teg o 93 o flynyddoedd. Dywed Dr. Rees ei fod ef fel ei frawd, y Parch. Evan Davies, Llanedi, o dymer heddychol ac yn ddyn boneddigaidd. Yn ei flynyddoedd cynnar yr oedd ei gysylltiadau gyda'r Arminiaid, ond daeth yn ddiweddarach i goleddu syniadau Undodaidd. Cyhoeddodd nifer o erthyglau yn 1845 ac yn 1849 ar " Anghydffurfiaeth ym Merthyr Tydfil ".

Dylid cofio mai'r Hen Dŷ Cwrdd ydoedd yr unig le addoli'n yr ardal yn y cyfnod hwn, a chynhwysai'r gynulleidfa ffermwyr gan mwyaf, gwehyddion, boneddwyr y gymdogaeth, ynghŷd â dyrnaid o'r pentrefwyr. Yr oedd ymladd a dyrnau yn beth cyffredin ar y Sabath, a hoffter y trigolion oedd chwaraeon creulon. Dyma hefyd y cyfnod pryd yr oedd y dadleuon diwinyddol, Arminiaeth, Ariaeth, ac Undodiaeth, yn terfysgu'r cynulleidfaoedd. Y pryd hwn y daeth y gynulleidfa'n Undodiaid pendant, ac apwyntiwyd y Parch. Owen Evans, Undodwr o ysgol Priestley, yn weinidog.

OWEN EVANS:

Ganed ef ym mhlwy Llandysul yn 1808. Cafodd ei addysg gynnar yn ysgol Dafis Castell Hywel, a derbyniwyd ef i Goleg Caerfyrddin. Oddiyno aeth yn weinidog ar gynulleidfa Pantydefaid hyd 1834, ac ymadawodd i gymryd swydd athro yn Evesham. Ni dderbyniodd ffafr oherwydd ei olygiadau Undodaidd, a daeth yn ôl eilwaith i'r weinidogaeth gan gymryd gofal am gynulleidfa Blaengwrach. Oddiyno aeth i Gefn Coed. Ymbriododdd â merch y Parch. David Davis, Castell Nedd, ac yn ail wraig iddo yr oedd Margaret wyres Gwilym Harri, bardd y Garw Dyle. Yr oedd Mr. Evans yn ysgolor gwych, yn feistr ar saith o ieithoedd, yn eu plith Hebraeg a Syiag, yn bregethwr dwys, ac yn meddu ar anian ddymunol. Yr oedd ganddo wybodaeth gadarn o'r Ysgrythur, a rhagorai fel esboniwr ar safbwyntiau sylfaenol Undodiaeth. Am beth amser bu'n arholwr mewn Hebraeg yng Ngholeg Caerfyrddin. Ysgrifennodd wmbredd o erthyglau i'r YMOFYNNYDD a chylchgronau ereill, a bob amser yr oedd ei driniaeth o'i bwnc yn feistrolgar. Bu dadl faith rhyngddo â'r Parch. R. Gwesyn Jones ar ddarlleniad cywir o adnod yn y Testament Newydd. Achos y ddadl ydoedd beirniadaeth yn yr *Annibynnwr* ar bregeth a draddododd Mr. Evans ym Mhenybont ar Ogwr. Erbyn hyn y mae'r Cyfieithiad Diwygiedig o'r Beibl wedi symud ymaith bob anhawster ynghylch yr adnod.

Yr oedd Owen Evans yn ysgolfeistr llwyddiannus hefyd, yn fawr ei barch gan ei ysgolheigion, ac mewn anrhydedd tu hwnt i ffiniau ei enwad. Pan anrhegwyd ef â thysteb ac oriawr aur ym Merthyr yn 1853 gan ei edmygwyr, dywedid fod bron pob dyn o bwys mor bell a Chastell Nedd wedi derbyn ei addysg yn ei ysgol.

Yn 1853 ail-adeiladwyd y Capel, ac agorwyd ef yn rhydd o ddyled. Bu Owen Evans farw yn sydyn yn Ionor 1865 yn 56 mlwydd oed ar ôl gwasanaethu cynulleidfa'r Hen Dŷ Cwrdd am wyth mlynedd ar hugain. Gwasanaethodd ei gymdogaeth hefyd fel gwarcheidwad. Ymhlith ei ffrindiau mynwesol yr oedd Thomas Stephens, arloeswr beirniadaeth lenyddol yng Nghymru, ac awdur *The Literature of the Kymry*. Nid yn unig y gofalai Owen Evans am addysg ei fyfyrwyr ond o'i boced ei hun arferai gyflenwi eu rheidiau.

Wele gopi o'i drwydded i bregethu :

County of the Borough of Carmarthen—

I, Grismond Phillips, Esquire, Mayor and one of His Majesty's Justices of the Peace for the said County of the Borough, do hereby certify that Owen Evans, a student of the Presbyterian College, Carmarthen, did this day appear before me and did make and take and subscribe the several oaths and declarations sqecified in an Act made in the fifty-second year of the reign of King George the Third intituled an Act to repeal certain Acts and amend other Acts relating to religious worship and Assemblies and persons teaching or preaching therein.

Witness my hand this first day of February one thousand eight hundred and twenty-seven.

GRIS. PHILLIPS.

Pris y drwydded hon oedd coron.

Yn addolwyr yn yr Hen Dŷ Cwrdd yn y cyfnod hwn yr oedd aelodau o deulu Wayne—sefydlwyr y drafnidiaeth haearn a glo yn Aberdâr, a dangosodd un o'r teulu ei serch tuag at y lle drwy gofio am yr achos yn ei ewyllys.

ISAAC THOMAS WILLIAMS :

Dilynwyd Owen Evans gan y Parch. Isaac Thomas Williams (1836-1873). Mab ydoedd i weinidog gyda'r Bedyddwyr, ac addysgwyd ef yng Ngholeg y Bedyddwyr yn Hwlffordd. Bu'n weinidog ym Mryste (1862-1863), ac aeth oddiyno i ofalu am achos y Bedyddwyr yng Ngwrecsam, lle y daeth cyfnewid dros ei syniadau. Derbyniodd alwad i Gefn Coed, lle y bu'n weinidog am chwe mlynedd, ond yr oedd y gwaith bugeiliol yn ogystal â chadw ysgol yn ormod o faich i'w gorff bregus. Ymadawodd o'r weinidogaeth, a threuliodd weddill ei ddyddiau mewn afiechyd yn nhŷ ei rieni yn Aberdulais, lle y bu farw ar Ragfyr 4, 1873 yn 39 mlwydd oed. Yr oedd yn ddyn o alluoedd disglair, ac arferai ysgrifennu erthyglau diddorol i'r YMOFYNNYDD.

Tua'r amser hwn trwy gyfrwng Mr. William Harries dechreuodd y gynulleidfa wneud defnydd o'r *harmonium*, y cyntaf yn y pentref, a bu am amser yn destun dadl frwd. Dechreuwyd hefyd ddysgu'r Tonic Sol-ffa a chanu mewn pedwar llais. O hyn ymlaen daeth canu'r Hen Dŷ Cwrdd yn enwog. Ffurfiwyd y *String Band*, ac yr oedd yno offerynwyr da. Am rai blynyddoedd cynhaliwyd y gwasanaethau gan bregethwyr achlysurol ac aelodau'r gynulleidfa, dynion ffyddlon a da. Yn eu plith yr oedd y duwiol a'r diwylliedig William Hughes, yr haelfrydig Evan Evans, y brwdfrydig a'r heddychlon William Jones, y ffyddlon Evan Lewis, a'i wraig mor ffyddlon ag yntau, David Thomas a'i angerdd dros ddysg a cherdd-oriaeth, yr uniawn John Evans, a'r selog Evan Williams. Cyr-aeddasant i gyd oedran teg. Ysgrifennydd y gynulleidfa yn y cyfnod hwn oedd William Harries, a bu'n ddyfal yn y swydd honno am ddeugain mlynedd. Dilynwyd ef gan William Davies

na allai byth feddwl am yr Hen Dŷ Cwrdd ond fel " erw Duw ". Dilynwyd yntau gan ei fab-yng-nghyfraith, Mr. Lewis Edwards, sydd yn awr yn llywydd Cymdeithas Undodaidd Morgannwg.

JOHN HATHREN DAVIES:

Yn 1877 daeth y Parch. J. Hathren Davies—enw a anwylid ar bob gwefus yng nghymdogaeth y Cefn. Ganed ef yn 1855, ac yn ddwy ar hugain oed dechreuodd ar weinidogaeth o dair blynedd ar ddeg ar hugain, a phob un ohonynt yn flwyddyn ddiwyd, wedi ei chysegru i wasanaethu pob achos da a fyddai'n dyrchafu bywyd Cymru. Yr oedd yn Undodwr trwyadl, ac yn bregethwr grymus. Cadwodd ysgol lwyddiannus o 1877 hyd 1891, a chyfrannodd addysg i nifer luosog iawn o ysgolheigion. Bu'n gyfrifol am adnewyddu'r capel oddimewn ; cyfnewidiwyd yr hen seddau uchel am seddau mwy cyffyrddus ; ar fwrdd y Cymun daeth llestri arian i gymryd lle'r llestri ffeutur. Yn y pulpud yn sedd i'r pregethwr rhoddwyd hen gadair fraich dderi gefn-uchel, a fwriadwyd hefyd yn ddarllenfa. Arferai'r gweinidog a rhai o'r aelodau fynd 'slawer dydd i gynnal gwasanaeth achlysurol yn ffermdy Man Moel, Tredegar, lle yr oedd teulu Undodaidd yn byw. Eisteddai'r hynaf o'r teulu yn y gadair hon, a safai'r pregethwr y tu ôl i'r gadair gan ddefnyddio'i chefn fel darllenfa. Y diwethaf i'w defnyddio fel hyn oedd Hathren Davies. Rhoddwyd y gadair i'r Hen Dŷ Cwrdd gan Mrs. Davies, merch Man Moel. Am y drydedd waith agorwyd y capel yn ddiddyled.

Hathren Davies oedd ysgrifennydd cyntaf y Gymanfa Ganu yn 1888, ac yr oedd yn un o sylfaenwyr y mudiad. Bu'n ysgrifennydd am ddwy flynedd ar hugain. Yn 1896 bu'n casglu'r emynau, a William Harries yn dewis y tonau, ar gyfer y *Perlau Moliant* a gyhoeddwyd gan D. Eiddil Jones. Y mae ein caniadaeth ni fel enwad tan ddyled drom i'r dynion hyn am eu llafur. Mr. Davies hefyd a gyfieithiodd y llyfryn *Yn ol at Iesu* (Armstrong) a *Y Beibl yr hyn yw, a'r hyn nad yw* (Wood). Bu'n llwyddiannus fel eisteddfodwr, ac y mae dau o'i draethodau yng nghadw yn y Llyfrgell Genedlaethol, un ohonynt ar Giraldus Cambrensis. Bu hefyd yn olygydd yr YMOFYNNYDD o 1888 hyd 1900, yn aelod o'r hen Fwrdd Ysgol, o Gyngor y Faenor, ac o Fwrdd Gwarcheidwaid Merthyr. Wrth ddod yn ôl o un o gyfarfodydd yr olaf y digwyddodd ei farw disymwth yn 1910. Collodd ein hachos weithiwr diwyd, ein henwad bregethwr ac arweinydd grymus, a chymdogaeth y Cefn ffrind i'r dyn tylawd. Cododd ardal gyfan faen ar ei fedd ym mynwent yr Hen Dŷ Cwrdd i goffhau ei ddefosiwn di-ildio i bob achos a fyddai'n dyrchafu bywyd y cylch.

Y mae'r gweinidogion a'i dilynodd i gyd yn fyw. Am wyth mlynedd bu'r Parch. J. Carrara Davies yn gweinidogaethu yma, ac yn 1918 ymadawodd am Belper, swydd Derby. Wedi hynny

daeth y Parch. T. Eric Davies atom o Bontypridd, ac wedi bod am rai blynyddoedd yn Nova Scotia, y mae yn awr yn Birmingham. Bu aelodau'r gynulleidfa'n gyfrifol am gynnal y gwasanaethau am ryw bum mlynedd. Dyma gyfnod y dirwasgiad diwydiannol yn Ne Cymru, a dangosodd y gynulleidfa'i hun yn deilwng o'i thraddodiadau gorau. Yn 1932 estynnwyd galwad i'r Parch. T. L. Jones, yn awr o Leytonstone, cyn-olygydd yr YMOFYNNYDD, a dilynwyd ef yn 1936 gan y Parch. J. Marles Thomas, M.A., ein gweinidog presennol.

O 1620 hyd heddiw y mae'n stori faith. Bu'r teidiau'n wynebu adfyd ac yn llafurio'n ddygn er mwyn ennill i ni ein breiniau presennol. Ond ni all crefydd fyw ar draddodiad y gorffennol. Gweld y dyfodol yr oedd y teidiau, a chyd-gynullasant er mwyn ennill eu delfrydau i'r dyfodol. Na laesed ein dwylo. Cofiwn gyngor Hathren mai'r unig ffordd i ddangos a chynnal ein sel ydyw mynychu'r addoliad.

Maes Llafur yr Ysgol Sul, 1939—40.

Arholwyr—

MR. W. D. JONES, B.A., Llanwnnen.
MR. J. M. JAMES, C.M., Cellan.

SAFON I. : o dan 8 oed. Y tair dameg a welir yn Efengyl Luc, Pennod xv.
Dysgu : Emyn 463 yn y Perlau Moliant : " Calon Lân ".

SAFON II. : o 8 i 12 oed. " Holwyddoreg ar Hanes Iesu Grist " gan y Parch. D. Evans, Capelygroes a Chribyn. Rhan II. Gwersi i'r Ail Safon. Y Flwyddyn Gyntaf—tud. 8—12.
Dysgu : Emyn 463 " Calon Lân " a Salm lxxxiv.

SAFON III : o 12 oed i fyny. " Holwyddoreg ar Hanes Iesu Grist " (D. Evans). Yr Ail Flwyddyn—tudalennau 12—18.
Dysgu : Emyn 463 " Calon Lân " a Salm lxxxiv.

[NODIAD : Geill y Plant ddysgu Salm lxxxiv fel y ceir hi yn y Beibl cyffredin neu fel y mae ym " Meibl Plant Ysgol ".]

Cynhelir yr Arholiad Sadwrn, Chwefror 15, 1941. Rhoddir gwobrau o lyfrau 3/6 yr un i'r chwech gorau yn Safon III, a rhai 2/6 yr un i'r chwech blaenaf yn Safon II.

Awgrymir gan y Pwyllgor i'r rhai mewn oed gymryd y Maes Llafur cyd-enwadol yn faes am y flwyddyn, hynny yw, Llyfr Hagai a Llyfr Secharia.

Anfoned yr Ysgolion Sul nag sydd eisoes wedi gwneud hynny eu cyfraniadau ar unwaith i'r Drysoryddes.

D. EMRYS REES, *Ysgrifennydd.*

Y Gymanfa Ganu.

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu Undeb Ceredigion ar Fehefin 10, yn Seion, Llandysul, capel hardd yr Annibynwyr, lle y mae organ ragorol a chroeso caredig.

Yr oedd trefniadau'r dydd yng ngofal y Parch. E. Gwilym Evans, B.A. Y mae'r Gymanfa wedi cyrraedd tir arbennig y blynyddoedd diwethaf hyn, ond nid oedd y teimladau cyffredinol cleni mor wresog ag arfer. Priodolir hyn i'r ffaith fod llawer yn methu â bod yno, ac y mae llu o'n bechgyn yn y fyddin yn amddiffyn ein gwlad. Er yr holl anawsterau daeth llawer o gyfeillion o Forgannwg a lleoedd ereill i'r Gymanfa.

Dechreuwyd cyfarfod y bore gan y Parch. E. Griffith Jones. Llywyddwyd yn ddeheuig gan Mrs. Annie Evans, Pencader. Mewn araith bwrpasol pwysleisiodd ar y priodoldeb i roddi addysg Sol-ffa i'r plant a gofalu am arweinwyr lleol i lanw lle yr hen. Fel cerddores teimlai fod gwir angen mwy o sylw i addysg gerddorol ymhob eglwys. Gobeithio y caiff hyn ei fabwysiadu'n union-gyrchol. Yr oedd cyfarfod y bore'n gyfyngedig i'r plant. Dymunol iawn oedd eu clywed yn adrodd yr emynau ac yn canu mor swynol. Derbyniwyd tystysgrifau gan ddau ar hugain o blant a fu'n llwyddiannus mewn addysg Sol-ffa. Yr oeddynt i gyd o Lwynrhydowen a Phantydefaid ac yn ddisgyblion i Mrs. E. Griffith Jones, L.L.C.M.

Dechreuwyd cyfarfod y prynhawn gan y Parch. J. D. Jones, B.A., B.D., a llywyddwyd gan Mr. D. T. Williams, Aberdâr. Mewn anerchiad cynnes dangosodd ei fod yn Undodwr i'r carn, a'i galon yn frwd dros yr egwyddorion y sylfeinir ein mudiad arnynt.

Arweiniwyd cyfarfod yr hwyr gan y Parch. Lewis Williams, a llywyddwyd gan Mr. Edgar Davies, M.A., Prifathro Ysgol y Sir, Llandysul. Rhoddodd bob derbyniad i ni dros yr Eglwys yn Seion, ac ymhyfrydai yn ymdrech a phwrpas y gymanfa.

Arweiniwyd drwy'r dydd eleni eto gan Mr. Matthews Williams, F.R.C.O., Amlwch, Sir Fôn, a chyfeiliwyd gan Mr. Ted Morgan, Llandysul. Diolchwyd i'r Eglwys yn Seion gan Mr. Josiah Jones, Y.H., Garthowen am fenthyg y Capel. Cafwyd cymanfa fendithiol a chynulliadau ardderchog. Gofalwyd am y gweithrediadau gan Mr. Dan Davies, L.T.S.C., ac efe hefyd ydoedd arholwr y Tonic Sol-ffa.

Ar Orffennaf 14, cyfarfu cynrychiolwyr y cynulleidfaoedd sy'n aelodau o'r Undeb Cerddorol yng Nghapel y Bryn er trefnu Cymanfa 1941. Penderfynwyd ei chynnal yn Llanbedr, ar Fehefin y 9fed.

Brynteifi. J.C.J.

CYMANFA GANU 1941.

CYFARFU Pwyllgor y Gymanfa Ganu yng Nghapel y Bryn ar Gorffennaf 14. Er i'r tywydd droi yn anffafriol yn y prynhawn daeth cynrychiolaeth o ddeuddeg o Eglwysi.

Penderfynwyd cynnal Cymanfa Ganu y flwyddyn nesaf yn Llanbedr. Dewiswyd yn arweinydd Mr. Idris Griffiths, A.R.C.O., Llanelli.

Bydd y pwyllgor cerdd yn cwrdd yn fuan, a dymunir ar i'r Eglwysi ddanfon yr Emynau a'r Tonau yn ddioed.

Dau fater a ddaeth ger bron oedd :

[1] Cais y Gymdeithas Gymraeg ar i Bwyllgor y Gymanfa Ganu fodloni dod dan adain (neu yn is-bwyllgor) i'r Gymdeithas honno.

Penderfynwyd yn unfrydol fod pwyllgor y Gymanfa Ganu i barhau fel y mae wedi bod ar hyd y blynyddoedd.

[2] Fod Pwyllgor y Gymanfa Ganu yn derbyn dewisiad y Gymdeithas o dri o weinidogion i edrych dros Emynau ein Cymanfaoedd o flwyddyn i flwyddyn.

Penderfynwyd yn unfrydol fod y pwyllgor cerddorol i ddewis y rhai hyn os bydd angen.

DAN DAVIES, *Ysgrifennydd.*

Priodas.

GORFFENNAF 11, yn Unity Church, Upper Street, Islington, Llundain, (tŷ cwrdd Undodaidd Cymraeg Llundain) gan y Parch. T. L. Jones, ym mhresenoldeb y cofrestrydd, unwyd mewn priodas, HERBERT THOMAS JOYCE, 29, Dalston Lane, Llundain, a gynt o Tyfeity, Bronllys, Sir Frycheiniog, â HANNAH MORGAN, 140, High Street, Stoke Newington, a gynt o Llwynygroes, Llanwnen. Pob bendith a llwyddiant a fo iddynt.

Marwgofion.

MAI 27, yn 77 mlwydd oed, bu farw Miss SARAH DAVIES, Greenfield Terrace, Llanllwni—gynt o Holy Ville. Yn ystod ei bywyd yr oedd yn un o ffyddloniaid Alltyplaca, ond ers sawl blwyddyn bellach yr oedd yn analluog i fynychu y gwasanaethau yn herwydd cyflwr ei hiechyd. Un o'r boneddigesau naturiol ydoedd, a hyfryd iawn oedd ei chwmni bob amser. Hi yw yr olaf bron o nifer o Lanllwni a oedd flynyddoedd yn ôl yn amlwg yn Alltyplaca. Gosodwyd ei chorff ym mynwent Eglwys Llanllwni y dydd Gwener dilynol. Rhoddwyd anerchiad yn y tŷ gan ei gweinidog—y Parch. S. E. Bowen, a chynorthwywyd ef yn y gwasanaeth yno gan y Parch. Morris Jones. Gwasanaethwyd yn yr Eglwys ac ar lan y bedd gan y Ficer, y Parch. Lloyd Jones, gyda chynorthwy y Parch. S. E. Bowen. Gadawodd un brawd a llawer o berthynasau mewn hiraeth ar ei hôl.

MEHEFIN 15, bu farw Mrs. JANE DAVIES, Troed-y-bryn Farm, Llanybyther, yn 77 mlwydd oed. Yr oedd wedi bod yn wannaidd am rai blynyddoedd, ond prysurwyd y diwedd drwy ddamwain a dorrodd ei chlun rhyw dair wythnos cyn ei marwolaeth. Un garedig oedd Mrs. Davies, a hyfryd iawn ar ei haelwyd. Yr oedd ei phriod wedi ei blaenu flynyddoedd yn ôl, gan ei gadael i wynebu

gwaith bywyd ag un-ar-ddeg o blant : saith mab a phedair merch, a'r ieuengaf ohonynt y pryd hwnnw ond dwy a hanner oed. Yr oeddynt i gyd ond un, a fethodd yn herwydd afiechyd, yn bresennol yn ei hangladd y dydd Iau dilynol. Mynegai ei siarad bob amser ganolfan ei serchiadau crefyddol, ac enwau annwyl iddi hi oedd Caeronnen ac Alltyplaca. Gosodwyd ei gweddillion ym mynwent Rhydybont, a gwasanaethwyd gan ei gweinidog—y Parch. S. E. Bowen, gyda chynhorthwy y Parchn. Roberts, Ffynnonbedr, a W. H. Jones, Rhydybont.

Mehefin 30, bu farw yn 62 mlwydd oed Mrs. M. A. DAVIES, priod Mr. J. T. Davies, Crugywheel, Llanybyther. Yr oedd yn un adnabyddus ar gyfrif cylch helaeth ei chysylltiadau, un a oedd hefyd yn annwyl yn rhinwedd ei graslonrwydd. Blin iawn oedd gan y llawer ymwelwyr i'w chartref pryd fisoedd yn ôl y cyfyngwyd hi i'w gwely, a'r rhagolygon adferiad yn lleihau o wythnos i wythnos. Yng nghymdogaeth Ciliau Aeron y cafodd ei magu, lle y mae enw ei brawd, Doctor Tynant, yn draddodiad mynwesol. Yno yn awr yn y Parc y mae brawd arall iddi, sef y Doctor T. Evans yn ei ymneilltuaeth o Abertawe, ac eraill o'r teulu yn y cylch yn dal i feithrin yr egwyddorion a ddug i fod yr achos yng nghapel Ciliau. Preifat ar Orffennaf 4 yr oedd yr angladd yn y tŷ, a gwasanaethwyd yno gan y Parchn. S. E. Bowen, Lewis Williams a Bryn Davies, Brynteg. Gosodwyd y rhan farwol ohoni i orffwys ym mynwent Eglwys Llanwenog, a'r offeiriaid a ganlyn yn gwasanaethu—y Parchn. Ben Davies, Llanwenog ; J. E. Hughes, Leamington ; E. Jenkins, Llanybyther ; D. Evans, Llanfihangel-ar-arth ; Joshua Davies, Talgarth, a'r Prebendary Hughes Davies, Bridgewater. Gadawodd briod a dwy ferch yn y cartref—tri mab bellach wedi gadael yr aelwyd glyd a llawer o berthynasau mewn galar dwys ar ei hôl. Yr oedd dau o'r meibion mewn gwisg filwrol, sef y Dr. T. Davies, M.C. a Mr. Ieuan Davies, R.A.F. Gwasanaetha Mr. Daff Davies fel meddyg anifeiliaid yn Sir Forgannwg. Yng Ngallt-yplaca ar y Sul gwnaeth y gweinidog gyfeiriadau tyner ati.

Gorffennaf 3 bu farw EVAN EVANS, Fforest-newydd, Tregroes, Llandysul yn 63 mlwydd oed. Claddwyd ef ym mynwent Eglwys Tregroes, Sadwrn, Gorffennaf 6 ym mhresenoldeb torf fawr. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parch. D. A. Thomas, M.A. a'r Parch. E. O. Jenkins ac yn yr Eglwys gan y Ficer a'r Parch. E. Gwilym Evans, B.A., ac ar lan y bedd gan y Parch. Emrys Jones, B.A. Estynnwn i'r teulu galarus ein cydymdeimlad dwysaf.

Dydd Sadwrn, Gorffennaf 6 bu farw ELIZABETH JONES, Pwllgravel, Pantydefaid, Llandysul yn 83 mlwydd oed. Dydd ei hangladd oedd Mawrth, Gorffennaf 9, pan y gwasanaethwyd yn y tŷ ag yn y capel gan ei gweinidog, ac ar lan y bedd gan y Parch. D. A. Williams. Gwraig weithgar, unplyg, gonest a didwyll ydoedd, a threuliodd fywyd hir o hunan-aberth ac o wasanaeth. Enillodd serch ei theulu a pharch ei heglwys a'i chymdogaeth.

Gorffennaf 8, ar ôl cystudd maith a blin, TOM JONES, annwyl briod Sarah Jones, 4, Well Street, Llandysul, yn 55 mlwydd oed. Bachgen o ardal Mydroilyn ydoedd yn wreiddiol. Cofiwn amdano ar wasanaeth yn ardal Talgarreg, ac wedi hynny'n byw yn ymyl Capelyfadfa cyn symud ohono ef a'i deulu i Landysul. Bu'n gweithio'n y lofa am flynyddoedd lawer ac ystyrrid ef yn weithiwr egniol a gonest. Tra dilynai ei alwedigaeth gafaelodd y dolur sy'n blino glowyr—y *silicosis*—ynddo, a bu farw ar y dydd uchod. Yr oedd yn un a gymerai ofal mawr o'i gartref, ac ymfalchiai yn nhyfiant a llwyddiant ei ferched. Gadawodd i wylo ei golli, ei briod, tair merch, brodyr a chwiorydd, a llawer o berthynasau ereill. Y dydd Iau dilynol hebryngwyd ei weddillion i fynwent Capelyfadfa. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. E. Gwilym Evans, B.A. a Myfyr Evans. Pregethwyd yn y capel gan y Parch. E. O. Jenkins, a gwasanaethwyd yn y fynwent gan y Parchn. D. Rhydderch a E. Gwilym Evans.

Gorffennaf 13, ANNE EVANS, gweddw y diweddar Evan Evans, Maesygaer, Ciliau Aeron, yn 75 mlwydd oed. Mwy nag ugain mlynedd yn ôl dechreuodd ddioddef oddiwrth oddiwrth afiechyd a waethygodd yn fuan ac a'i cyfyngodd i'w thŷ. Tua deufis yn ôl cafodd y *bronchitis*, a gwaelu a wnaeth hyd y terfyn. Yr oedd yn un fawr mewn llawer ystyr. Ni chafodd fanteision addysg uwchlaw y cyffredin ym more ei hoes, ond yr oedd o duedd ddarllengar, a deuai o hyd i'r llenyddiaeth orau ; a chan ei bod o feddwl cryf daeth yn ddeallus a gwybodus iawn. Casglodd nid yn unig lawer o wybodaeth, ond hefyd coethodd ei hun yn fawr, fel y gellir dweud ei bod yn wraig fonheddig yng ngwir ystyr y gair, ac fel y gellir cymhwyso englyn y diweddar Barch. J. T. Job, Abergwaun, ati :—

" Oriau ei dyddiau diddig—a dreuliodd
Hyd yr olaf orig,
Yn feunyddiol foneddig,
A mwyn ei threm yn ei thrig."

Yr oedd yn un ddiddorol iawn yn ei chymdeithas, ac oblegid hynny enillodd lawer o gyfeillion. A ddaeth i gysylltiad â hi cawsant eu synnu i gyfarfod ag un mor ddeallus, a hithau ond mewn amgylchiadau cyffredin. Medrai ymddiddan â dynion o bob safle yn y byd, ac ymwelai pobl o bell ac agos â hi er mwyn cael ei chymdeithas am ychydig. Meddai ar gariad diderfyn at ei chapel, ac at bob peth perthynol i'r achos yno. Drwy fyw yn awyrgylch meddyliau aruchel a chyfeillion o gymeriadau da, a'r achos crefyddol yn ei hymyl, tyfodd yn gymeriad hardd iawn, ac yn un a oedd yn creu mewn pobl barch mawr iddi. Er methu ohoni a mynd oddiamgylch, teimlir gwagder mawr yn y lle ar ei hôl. Claddwyd ym mynwent Capel Ciliau. Pregethwyd gan y Parch. Lewis Williams, Ciliau, a chyflawnwyd y rhannau eraill o'r gwasanaeth gan y Parchn. S. Evans Bowen, Alltyplaca ; T. O. Williams, M.A., Brondeifi ; J. Williams, Ficer Ciliau ac E. O. Jenkins, Llwynrhydowen. Gwasanaethwyd wrth yr Organ gan Mrs. Jones, A.L.C.M., Cil-llwch, Dihewyd. Gwelwyd yn bresennol y Parchn. J. Islan Jones, M.A., Cribyn a D. Evans, Cwmiago.

Dydd Llun, Gorffennaf 15, bu farw Mrs. MARY ANN DAVIES, priod Mr. John Davies, Gelli Villas, Trecynon, yn 78 oed. Mae'r teulu yn dal cysylltiad agos iawn â'r Hen Dŷ Cwrdd, a Mr. Davies yw y diacon hynaf a'r mab, Mr. D. R. Davies, yn ddiacon ac yn Drysorydd, ac ŵyres ydyw Mrs. J. Marles Thomas, ac nid yn unig â'r Hen Dŷ Cwrdd ond â'r enwad oblegid brawd iddi ydoedd y Parch. W. J. Davies a fu gynt yn weinidog yn Llandysul a chefnder iddi ydoedd y Parch. D. Evans, Chester. Bu Mrs. Davies yn gysylltiedig â'r Hen Dŷ Cwrdd er yn blentyn, ac ni fu neb yn ffyddlonach na hi i'r hen achos. Ni fyddai dim yn digwydd yn y capel, y gwasanaeth ar y Sul na chyfarfod yn yr wythnos, na fyddai hi yno. Fe ellid bod yn eithaf sicr onid oedd hi yn bresennol fod afiechyd yn ei rhwystro. Ni fyddai yn esgeuluso gwasanaeth ar unrhyw gyfrif, ac yr oedd arferiad y blynyddoedd wedi dod yn ail natur iddi erbyn hyn. Yn ystod ei chystudd y misoedd diwethaf cwynai na allai ddod i'r gwasanaeth a gwelai'r Sul yn hir iawn. Yr oedd hi yn Undodwraig i'r carn ac amheuthun oedd ei chlywed yn adrodd Salm neu emyn neu yn dweud ei phrofiad. Blinai yn fawr hefyd oherwydd y rhyfel, ond dyma hi bellach wedi dianc o " swn y storm a'i chlyw ". Colled fawr i'r Hen Dŷ Cwrdd ydyw hyn eto canys nid oes neb heddiw yn dyfod i lanw lle'r ffyddloniaid. Mae'r bylchau a welir yma heddiw yn peri loes i deimlad a chalon pawb sy'n caru'r hen achos, a gwelir eisiau'r ffyddloniaid 'nawr yn fwy nag erioed. Cyflwynwn i'w phriod ac i'w mab ac hefyd i'r Parch. a Mrs. J. Marles Thomas a'r perthynasau ein cydymdeimlad llwyraf. Claddwyd yn y fynwent gyhoeddus ddydd Iau, Gorffennaf 18, a gwasanaethwyd gan y Parch. J. Marles Thomas, M.A., E. R. Dennis, a D. Richards.

Nodion yr Eglwysi.

CAPELYGROES.—Nos Sul, Gorffennaf 21, daeth llu o gyfeillion ynghŷd i gyflwyno anrheg (*Tea Set*) i Mrs. Hannah Joyce, Llwyncroes, sydd yn awr yn cartrefu yn Llundain. Un o blant yr eglwys ydyw a bu'n ffyddlon er yn blentyn. Cyflwynwyd yr anrheg gan Mrs. Jones, Pantmawr, gydag araith bwrpasol. Siaradwyd hefyd gan Mrs. Jenkins, Blaenwaunganol ; Mr. Frank Evans, Cross Inn ; Mr. John Evans, C.C., Beili Cadarn, a'r gweinidog.

CRIBYN.—Dymuna'r gynulleidfa ddiolch yn gynnes iawn i Mrs. Evans, Cribyn Farm a Mrs. Jenkins, Aeron House (gynt Three Horse Shoe) am nifer o gopiau o'r *Perlau Moliant* at wasanaeth y Capel.

EIN GWEINIDOGION.—Cyfarfu Cymdeithas Gweinidogion Ceredigion yn Llanbedr ar Orffennaf 14. Yr oedd yn bresennol y Parchn. D. Evans, Lewis Williams, John Evans, B.A., E. O. Jenkins, T. O. Williams, M.A., S. E. Bowen, E. Griffith Jones. Llywyddwyd gan y Parch. J. Islan Jones, M.A.

PWYLLGOR CYMANFA GERDDOROL CEREDIGION.—Dydd Sul, Gorffennaf 14, cyfarfu'r pwyllgor yng Nghapelybryn. Apwyntiwyd Mr. Idris Griffiths, Llanelli yn arweinydd, a Mr. Ted Morgan, Llandysul yn gyfeilydd, Mr. D. Evans, Cwrtnewydd a Mr. L. T. Thomas, Pantydefaid yn arweinyddion y *rehearsals*, a Mrs. R. Evans, Llanbedr a Miss Eileen Jones, Pantydefaid yn gyfeilesau i'r cyfryw. Cynhelir y gymanfa yn Llanbedr. Cynigiwyd dau benderfyniad :

[1] Bod pwyllgor y Gymanfa Gerddorol i weithredu o hyn allan fel un o is-bwyllgorau Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

[2] Bod pwyllgor y Gymanfa Gerddorol yn caniatau cais y Gymdeithas am iddynt gyflwyno'r cyfan o'r geiriau a genir yn y Gymanfa i bwyllgor o dri wedi eu hapwyntio gan y Gymdeithas i roddi eu barn ar eu cymhwysder. Gwrthodwyd y ddau benderfyniad yn bendant.

EIN BECHGYN.—Y mae pedwar o fechgyn o gynulleidfa Trebanos ar hyn o bryd yn y fyddin yng ngogledd Iwerddon. Hwyrach fod yr un peth yn wir am gynulleidfaoedd ereill. Y mae capeli Undodaidd heb fod ym mhell oddiwrth eu gwersylloedd. Efallai na wŷr y bechgyn hynny, oherwydd y gelwir hwy yno yn *Non-Subscribing Presbyterian Churches*. Ysgrifenna y Parch. J. Dare Davies, The Manse, Moneyrea, Belfast fod croeso gwresog yn aros y bechgyn hyn, pan ddont i gyffyrddiad â'n heglwysi.

CYRDDAU'R HYDREF.—Fe'u cynhelir yng Ngalltyplaca, ac eleni y mae'r capel yn dathlu ei ddau canmlwyddiant. Ceir manylion pellach am drefniadau'r dathlu yn rhifyn Medi.

TREBANOS.—Mewn cyngerdd a gynhaliwyd ar Fehefin 27 paratowyd y rhaglen gan aelodau Adran Amanw o Urdd Gobaith Cymru. Y trefnydd oedd Emlyn Aman, a chyfrannwyd at y mwynhad gan Arthur Wyn sydd erbyn hyn yn enwog ar y radio fel *xylophonist* a *vibraphonist*. Adran Amanw a enillodd y brif wobr yng nghystadleuaeth y ddrama yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni, ac y mae hynny yn ddigon o braw fod rhaglen y cyngerdd hwn yn un rhagorol. Cawsom ganeuon a thair drama. Derbyniwyd hefyd elw sylweddol at " Capel y Graig Comforts Fund ".

DOUGLAS WALMSLEY.—Bu farw y Parch. Douglas Walmsley, B.A. ar Fehefin 29 yn 92 mlwydd oed. Efe oedd yr hynaf yn y weinidogaeth. Hwyrach nad yw ddim ond enw bellach i'r mwyafrif o aelodau ein heglwysi, ond yng nghyfarfod pob adran o Gynghrair y Gwragedd cedwir ei goffadwriaeth yn wyrdd. Efe ydyw awdur yr emyn " Father, O hear us, seeking now to praise thee ! "

Gwrando ni, Arglwydd, ceisiwn dy glodfori,
Arnat y pwyswn, ynot 'r ym yn ffyddiog ;
Ti ydwyt noddfa'r oesau dirifedi,
Dduw hollalluog.

J. D. Lewis a'i Feibion, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.